

CYFARFOD Y CYNGOR – 25 EBRILL, 2018

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL YR AMLINELLIR YN EITEM 9(A) O AGENDA Y CYNGOR

Yn unol â pharagraff 10.4.1, Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, fe dderbyniwyd y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig fel y nodir yn eitem 9 (a) o agenda'r Cyngor gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Morgan ac M. Webber.

Dileu: 'Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cysylltu â Llywodraeth Cymru ar frys er mwyn gofyn iddi adolygu'i phenderfyniad, a hefyd i sicrhau bod Aelodau Seneddol Lleol yn lleisio barn y Cyngor a bod barn y Cyngor yn cael ei chlywed mewn cylchoedd trafod perthnasol, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).'

Ac ychwanegu:

'Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i drafod y mater yma. Mae hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc i drafod yr agwedd bwysig yma o ddinasyddiaeth ac addysg wleidyddol ar bob lefel o addysg, yn rhan o'i raglen waith yn y dyfodol.'

Os cytuna'r Cyngor i'r diwygiad yma, bydd y rhybudd o gynnig fel a ganlyn:

"Yn ystod y flwyddyn yma sy'n nodi canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio, ac yng ngoleuni cyfraniad sawl diwygiad deddfwriaethol arloesol megis Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 ymhlith eraill:-

- (1) Er mawr ofid, mae'r Cyngor yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ffeministiaeth (ac amlddiwylliannaeth) fel pwnc oddi ar faes llafur Cymru ar gyfer cymhwyster Lefel A 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' gan ddechrau ym mis Medi 2018;
- (2) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod deilliannau adolygiad tebyg a gafodd ei gyflawni gan Lywodraeth San Steffan wedi arwain at benderfyniad i gadw ffeministiaeth yn rhan o faes llafur Lloegr;
- (3) Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod modd i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, ac ym mhob rhan o Gymru, ddewis i ddilyn meysydd llafur y Byrddau Arholi yn Lloegr, mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad yma ddim yn denu cyllid dan bolisiau presennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i drafod y mater yma. Mae hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc i drafod yr agwedd

bwysig yma o ddinasyddiaeth ac addysg wleidyddol ar bob lefel o addysg, yn rhan o'i raglen waith yn y dyfodol".